## Eich rôl

Byddwch yn gweithio ar nifer o brosiectau amrywiol, felly mae gallu profedig i reoli eich amser eich hun, eich llwyth gwaith a datrys problemau yn hollbwysig. Yn ddelfrydol, byddwch hefyd yn gallu dangos y sgiliau sydd eu hangen i farchnata ac arloesi gan fod y rhain yn elfennau pwysig o'r rôl hon.

| Gofynion | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Blwyddyn o brofiad ôl-raddedig mewn ymgynghori neu lywodraeth leol. | X | |
| Dwy flynedd o brofiad ôl-raddedig mewn ymgynghori neu lywodraeth leol | | X |
| Gradd Cynllunio Trefol neu debyg. | X | |
| Gradd meistr mewn pynciau achrededig RTPI/RICS neu barodrwydd i weithio tuag at radd o'r fath. | | X |
| Wedi cyflawni neu'n gweithio tuag at aelodaeth siartredig o'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (MRTPI). | X | |
| Sgiliau dadansoddi, cyflwyno ac ysgrifennu rhagorol | X | |
| Ymrwymiad clir i weithio ym maes cynllunio a datblygu eiddo. | X | |
| Y gallu i siarad a chyfathrebu'n hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â sgiliau ysgrifennu da yn y Gymraeg. | | X |

## Bydd eich llwyth gwaith yn cynnwys:

- Paratoi ceisiadau cynllunio ac apeliadau;
- Arfarniadau cynllunio;
- Strategaethau cynllunio; a
- Cyflwyno sylwadau ar gynlluniau datblygu.

Byddwch yn rhoi cyngor ac arweiniad i amrywiaeth o gleientiaid gan gynnwys datblygwyr, adeiladwyr tai, busnesau twristiaeth, cwmnïau ynni ac unigolion preifat yn ogystal ag awdurdodau cynllunio lleol a sefydliadau trydydd sector eraill.

## Cyflog a buddion

- Gweithio hyblyg
- Pensiwn y cwmni
- Bonws blynyddol
- Cyfleoedd i fynychu digwyddiadau yn rhan o’r tîm
- Cyfleoedd i ehangu eich rhwydweithiau
- Talu am aelodaeth RTPI

## Lleoliad

Rydym yn cynnig hyblygrwydd i weithio o’n swyddfa yng Nghonwy neu Gaer a hefyd gweithio o gartref, ynghyd â’r cyfle i weithio mewn amgylchedd sy’n caniatáu cydbwysedd rhagorol rhwng bywyd a gwaith. Efallai y bydd y swydd hon hefyd yn gofyn am rywfaint o deithio allan i wahanol safleoedd gyda'r Cynllunwyr.

## Ymunwch â’n tîm!

Mae'r cwmni yn gwmni cymdeithasol a chefnogol. Fel cyflogwr cyfle cyfartal rydym yn anelu at gael gweithle amrywiol a chynhwysol ac anogir ymgeiswyr â chymwysterau addas o ystod eang o gefndiroedd i wneud cais.

Anfonwch eich CV a llythyr cyflwyno i rhys.davies@cadnantplanning.co.uk

Darparwch wybodaeth lawn am eich addysg a'ch cymwysterau proffesiynol, gan gynnwys lefelau cyrhaeddiad.